Visit Wales
Croeso Cymru

Arweiniad i Gynllun Gradd Sêr Croeso Cymru ar gyfer Pentrefi Gwyliau

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyhoeddwyd gan Croeso Cymru
Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd CF24 0UY
Ffôn: + 44 (0)1443 845500
www.cymru.gov.uk/twristiaeth

Cyflwynir yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn ddiffuant a gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau ei bod yn gywir. Ni all Croeso Cymru dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wall neu gamddehongliad. Mae pob atebolrwydd am golled, siom, esgeuluster neu unrhyw niwed arall a achoswyd drwy ddibynnu ar yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn wedi ei eithrio drwy hyn.

© Croeso Cymru 2010

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Dynodwyr	2
Gofynion Cyffredinol	3
Y Broses Asesu	4
Canllawiau i Weithredwyr	6
• Cyffredinol a'r Dderbynfa	6
• Siopau/Salonau	7
• Ystafelloedd Adloniant	7
• Ardaloedd Trwyddedig	8
• Tai Bwyta a Marchnadoedd Bwyd	8
• Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden	9
• Cyfleusterau'r Safle	10
• Yr Awyrgylch	11
• Cyfleusterau i Garafannau Teithiol	11
Llety	13
Llety Hunanddarpar	15
Stocrestr Offer y Llety Hunanddarpar	19
Ystafelloedd Gwely – Llety Hunanddarpar a Llety â Gwasanaeth	20
Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau – Llety Hunanddarpar a Llety â Gwasanaeth	24
Ardaloedd Cyhoeddus (Llety â Gwasanaeth yn unig)	27
Cod Ymarfer	30
Amodau Cymryd Rhan	31
Beth i'w wneud os nad ydych yn cytuno â'r Radd Sêr	32
Manylion cyswllt	Tu mewn i'r Clawr Cefn

Croeso i Safonau Sicrhau Ansawdd Croeso Cymru

Gwella safonau ansawdd

Mae cynnig llety o ansawdd uchel i gwsmeriaid yn hanfodol i sicrhau bod gan Gymru ddiwydiant twristiaeth sy'n gallu cystadlu ar lwyfan fyd-eang. Mae Croeso Cymru am gydweithio â'r diwydiant yng Nghymru i sicrhau bod ein llety yn parhau i gystadlu â chyrchfannau eraill i dwristiaid. I gyflawni cynnyrch o ansawdd uchel, rhaid i bob agwedd ar brofiadau'r twristiaid, o'u hymholiadau cyntaf i'w taith adref, ragori ar ddisgwyliadau'r defnyddwyr.

Mae codi safonau llety yn hanfodol i ddatblygu twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, felly rydym yn eich annog i gydweithio â Croeso Cymru drwy gyfrwng ein cynllun graddio, sy'n gosod safonau sydd yn union yr un fath â'r safonau a weithredir yn Lloegr.

Y manteision

Mae cynlluniau Sicrhau Ansawdd Croeso Cymru yn cynnig gwerth am arian, ac mae llawer o fanteision yn perthyn iddynt. Drwy ymuno, cewch gyfleoedd i hyrwyddo eich busnes, er enghraifft:

Cael eich cynnwys ar restr gwefannau **www.visitwales.com** a **www.visitbritain.com**, yn ogystal â chael mynediad at gyhoeddiadau ac ymgyrchoedd marchnata Croeso Cymru.

Cael adborth manwl ar yr asesiad ac adroddiad atodol gan Aseswyr Ansawdd profiadol. Cewch hefyd ymuno â rhwydwaith y Canolfannau Croeso, a

- Dangos tystysgrif yn nodi'r radd Sêr a ddynodwyd i chi.
- Derbyn arwyddion os ydych yn dymuno.
- Manteisio ar Gymorth i Fusnesau.
- Derbyn gwybodaeth yn rheolaidd gan Croeso Cymru.

CYFLWYNIAD

Cyffredinol

Mae'n hanfodol bod ymwelwyr yn gallu gwneud penderfyniadau deallus am le i aros, ac yr un mor hanfodol bod Pentrefi Gwyliau yn y wlad hon o'r ansawdd y mae ymwelwyr yn ei disgwyl.

Datblygu'r Safon

Yn wreiddiol, disgwyliwyd y byddai'r Safon yn adlewyrchu'r Safon Brydeinig ar gyfer Graddio Pentrefi Gwyliau.

Gan fod y cynnyrch yn dal i ddatblygu, a gan fod y mathau o gyfleusterau a llety sy'n cael eu darparu yn amrywio, bu'n rhaid addasu rhai agweddau.

Datblygwyd y safon bresennol ar y cyd â'r Gymdeithas Canolfannau Gwyliau, ar ôl cynnal ymgynghoriadau a chynlluniau peilot yn Lloegr. Y prif wahaniaeth yw, yn ogystal ag edrych ar ansawdd y cyfleusterau, **mae'r lletygarwch**, **y gwasanaethau a gynigir**, **ac ansawdd y gwahanol fathau o lety yn cael eu hasesu**.

Asesir y safon hon yn Lloegr ers nifer o flynyddoedd, ond dim ond yn 2008 y daeth y galw amdani yng Nghymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad â Chynghrair Twristiaeth Cymru cyn cyflwyno gradd ar gyfer Pentrefi Gwyliau yng Nghymru.

Mae llety mewn pentrefi gwyliau yn cynnwys unedau â gwasanaeth yn ogystal ag unedau hunanddarpar, fel cartrefi gwyliau carafán, cabanau gwyliau a fflatiau.

Dehongliad: Fel arfer mae Pentref Gwyliau yn cynnwys mathau amrywiol o lety, a'r rhan fwyaf mewn ystafelloedd sydd wedi'u hadeiladu yn bwrpasol (ee Cabanau Gwyliau, Ystafelloedd gwesty – efallai carafannau) ar safle mawr. Mae amrywiaeth o gyfleusterau a gweithgareddau ar gael hefyd, a allai fod yn gynwysedig yn y pris, neu beidio.

Y Safon

Bydd Croeso Cymru yn gweithredu'r cynllun yng Nghymru.

Er mwyn cael gradd fel rhan o'r safon ar gyfer Pentrefi Gwyliau, bydd sefydliad fel arfer yn cynnwys mathau amrywiol o lety, a'r rhan fwyaf mewn ystafelloedd sydd wedi'u hadeiladu yn bwrpasol (ee cabanau gwyliau, ystafelloedd gwesty). Bydd amrywiaeth o gyfleusterau a gweithgareddau ar gael hefyd, a allai fod yn gynwysedig yn y pris, neu beidio.

Ceir gwybodaeth am y gofynion cyffredinol a'r broses asesu yng nghorff y ddogfen.

Dylid nodi na fydd y radd yn cael ei hadolygu yn y dyfodol agos, gan fod disgwyl i'r Safon Brydeinig ar gyfer Graddio Parciau Gwyliau gael ei hadolygu cyn hynny.

DYNODWYR:

Pentref Gwyliau:	Mae Pentref Gwyliau fel arfer yn cynnwys mathau amrywiol o lety, sydd yn aml wedi'u hadeiladu yn bwrpasol; ac mae adloniant, gweithgareddau a chyfleusterau amrywiol ar gael ar y safle yn rhad ac am ddim, neu am dâl ychwanegol. Mae ymwelwyr fel arfer yn cadw lle am 3 diwrnod, 4 diwrnod neu am wythnos.
Pentref Gwyliau Coedwig:	Pentref Gwyliau sydd wedi'i leoli mewn coedwig, â chadwraeth a thwristiaeth gynaliadwy yn nodwedd allweddol. Fel arfer, mae'n cynnwys mathau amrywiol o lety, yn aml wedi'u hadeiladu yn bwrpasol, ac mae adloniant, gweithgareddau a chyfleusterau amrywiol ar gael ar y safle yn rhad ac am ddim, neu am dâl ychwanegol. Mae ymwelwyr fel arfer yn cadw lle am 3 diwrnod, 4 diwrnod neu am wythnos.

GOFYNION CYFFREDINOL

Mae cyfrifoldeb ar bob perchennog i sicrhau bod pob rhwymedigaeth statudol berthnasol sydd mewn grym ar hyn o bryd yn cael ei bodloni. Pan fydd perchennog yn gwneud cais am radd, bydd Croeso Cymru yn gofyn am gadarnhad wedi'i lofnodi bod hynny'n digwydd. Mae Croeso Cymru hefyd yn gofyn i bob perchennog ddarparu tystiolaeth bod ganddynt Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a bod hwnnw'n dal yn ddilys (yn addas i faint y pentref, a nifer y gwesteion sy'n aros).

Rhaid i bob llety a chyfleuster fodloni gofynion perthnasol y rhwymedigaethau statudol, lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys:

- Rhagofalon tân
- Deddfau Diogelu Defnyddwyr
- Diogelwch bwyd
- Trwyddedu
- Iechyd a Diogelwch
- Disgrifiadau Masnach
- Gwahaniaethu ar Sail Anabledd

- Rhaid i offer trydan, ac offer sy'n rhedeg ar olew, gael eu cynnal a'u cadw i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn. Rhaid iddynt hefyd gael gwasanaeth rheolaidd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, ac fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Yn ôl y gyfraith, rhaid meddu ar dystysgrif gyfredol i landlordiaid sy'n cadarnhau bod yr holl gyfarpar nwy wedi cael eu gwirio yn ystod y 12 mis diwethaf gan osodwr sydd wedi'i gofrestru gyda CORGI.

- Rhaid i unrhyw gartrefi gwyliau carafán fod wedi'u hadeiladu i gydymffurfio â safonau diogelwch Ewrop. Rhaid i bob un gynnwys cyflenwad dŵr, cyfleusterau draenio, cysylltiadau â nwy/trydan, gan gynnwys y prif gyflenwad, yn ogystal â thoiled, cawod a/neu fath.

Croeso a chyrraedd

- Rhaid bod gan y busnes drefniadau i dderbyn ymwelwyr ar adegau priodol; man o le bydd modd cyfeirio'r ymwelwyr at eu hystafelloedd / carafannau / cabanau gwyliau / safleoedd, a man hefyd i gael cyngor a chymorth os bydd eu hangen.

- Rhaid rheoli'r busnes yn dda, a'i gadw mewn cyflwr glân a deniadol. Dylid rhoi sylw i'r arwydd ffordd a mynedfa'r lleoliad.

Iechyd a diogelwch

Rhaid cynnal safon uchel o ddiogelwch cyffredinol.

- Rhaid darparu blwch cymorth cyntaf mewn man hygyrch yn y llety.

- Rhaid dangos arwyddion argyfwng, yn nodi manylion a lleoliad cyswllt y busnes, y ffôn, y meddyg, y gwasanaeth tân, yr ysbyty lleol a gwasanaethau hanfodol eraill, mewn mannau amlwg. Gellid darparu'r rhain yn y llety ac yn y dderbynfa.

- Rhaid i'r busnes ddarparu offer diffodd tân a rhybuddion tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio Diogelwch Tân 2005, sy'n gosod rheidrwydd ar y perchennog/y person sy'n gyfrifol am bob eiddo/busnes i gynnal asesiad risgiau tân, a gweithredu'n briodol i ddiddymu a lleihau'r risgiau.

- Rhaid sicrhau bod gan bob offer trydanol, y tu mewn a'r tu allan, y dosbarthiad diogelwch priodol.

- Rhaid cynnal trefniadau digonol i gael gwared ar sbwriel.

Y BROSES ASESU

Mae'r system marcio Pentrefi Gwyliau yn gosod mwy o bwyslais ar lanweithdra, sef elfen hanfodol a ddaeth i'r amlwg yn ymchwil i ddefnyddwyr Visit Britain fel nodwedd sy'n ganolog i lefel y boddhad a geir yn ystod pob arhosiad/ymweliad. Bydd pob agwedd ar y cyfleusterau a llety yn cael eu hasesu o 1-5, fel a ganlyn, a'r canlyniadau fel canran gyffredinol – nodir y graddfeydd llwyddo isod:

Sgôr Ansawdd	Y ganran angenrheidiol i ennill 1-5 seren	
• 1 = Derbyniol	1 Seren	40% - 48%
• 2 = Gweddol Dda	2 Seren	49% - 60%
• 3 = Da	3 Seren	61% - 72%
• 4 = Da Iawn	4 Seren	73% - 84%
• 5 = Ardderchog	5 Seren	85% - 100%

Os na fydd busnes yn derbyn sgôr o '1' mewn unrhyw faes, ni fydd yn derbyn gradd.

Y meysydd a fydd yn cael eu hasesu yw:

- Y dderbynfa (gan gynnwys gwasanaeth a lletygarwch)
- Siopau/salonau
- Ystafelloedd adloniant (gan gynnwys y gwasanaeth a'r lletygarwch)
- Ardaloedd trwyddedig (gan gynnwys y gwasanaeth a'r lletygarwch)
- Tai bwyta/marchnadoedd bwyd (gan gynnwys y gwasanaeth a'r lletygarwch)
- Cyfleusterau chwaraeon
- Ardaloedd hamdden/chwarae
- Cyfleusterau'r pentref
- Yr awyrgylch
- Y llety
- Cyfleusterau i garafannau teithiol (os yn berthnasol)

(Ceir mwy o fanylion yn y tudalennau canlynol)

Gan fod y gwasanaeth a'r lletygarwch yn cael eu hasesu, bydd angen i'r asesydd aros am noson neu ddwy, gan ddibynnu ar nifer y cyfleusterau a'r marchnadoedd bwyd sy'n y Pentref. Bydd yr holl gostau yn cael eu talu gan y Pentref Gwyliau, a bydd y sawl a fydd yn dyfarnu'r radd yn anhysbys. Fodd bynnag, gan fod cwsmeriaid fel arfer yn aros am 4 diwrnod neu fwy, mae'n arferol i Uwch Reolwyr drefnu arhosiad am 1 neu 2 noson, er na fydd gweddill staff y pentref yn ymwybodol o'r asesiad.

ON Mae Glanweithdra, Gwasanaeth ac effeithiolrwydd a Lletygarwch a bod yn groesawgar werth dwywaith y sgorau eraill.

Isafswm y gofynion mynediad

Er mwyn cael eu cydnabod gan y safon hon, rhaid i bob busnes fodloni isafswm y gofynion mynediad sy'n cael eu rhestru yn y llyfryn hwn.

Cymwysyddion 5 Seren

I gael gradd 5 Seren, yn ogystal â darparu lefelau ansawdd ardderchog, rhaid darparu'r cyfleusterau sylfaenol canlynol:

1) Dillad gwely (a thywelion) yn rhad ac am ddim.

2) Gwres ym mhob uned, gyda system wresogi â rheolyddion awtomatig, thermostatig ac unigol.

3) Toiled ychwanegol gyda bath/cawod lle mae mwy na 6 ymwelydd yn aros (gall y toiled fod ar wahân i'r ystafell ymolchi).

Dangosyddion Ansawdd

Yn yr adran ar lety, ceir enghreifftiau am lefel yr ansawdd sy'n ddisgwyliedig i gael sgôr ansawdd o 1-5 ym mhob maes. Darlun cyffredinol yn unig o lefelau cynyddol o ansawdd y mae ymadroddion fel derbyniol, da, da iawn etc yn eu cynnig. Maent yn fwriadol amhenodol, gan adlewyrchu'r amrywiaeth eang o elfennau ansawdd y gellid eu cynnwys.

Mae'r 'Dangosyddion Ansawdd' yn cynrychioli'r hyn a ddisgwylir fel arfer. Nid ydynt yn derfynol nac yn hollgynhwysfawr.

Bydd lefel y radd a ddyfernir mewn gwirionedd yn cynnig golwg gytbwys ar y cyfleusterau a'r llety a ddarperir.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Ffactorau sy'n bodloni'r lefel isaf posibl o ansawdd derbyniol		Ffactorau sy'n bodloni Sgôr Ansawdd o 3 (Da)		Ffactorau sy'n bodloni Sgôr Ansawdd o 5 (Ardderchog)

CANLLAWIAU I WEITHREDWYR

CYFFREDINOL

Lle mae mwy nag un math o gyfleuster ar gael – siopau, cyfleusterau hamdden a chwaraeon, clybiau, barrau, etc – bydd pob un yn cael ei asesu yn unigol, a bydd asesiad 'cyfartalog', a fydd yn adlewyrchu'r ansawdd cyffredinol, yn cael ei roi.

GLANWEITHDRA

Mae safonau glanweithdra yr holl gyfleusterau yn un o agweddau pwysicaf y cynllun. I sicrhau'r marciau uchaf, bydd yr aseswyr yn chwilio am amodau dilychwyn, er bydd y tywydd a chyflwr y safle pan gynhelir yr asesiad yn cael eu hystyried. Mae'n hawdd adnabod sbwriel, llwch a baw sydd wedi casglu ers amser. Dylid rhoi sylw arbennig i ardaloedd o dan a thu ôl i gyfarpar sydd wedi'i osod, y corneli a'r sgyrtin, yr ardaloedd sydd wedi'u paentio, y ffenestri, y siliau, y pibau, y peiriannau echdynnu, y goleuadau gosod, y waliau a'r lloriau. Os bydd ansawdd y glanweithdra mewn unrhyw ardal yn annerbyniol, NI ddyfernir gradd.

Y DDERBYNFA

Gall y Dderbynfa amrywio o ardal sydd wedi'i hadeiladu yn bwrpasol, i ardal sy'n cael ei defnyddio ar gyfer sawl diben. Gallai hefyd gynnwys "Gwasanaethau i Ymwelwyr" ledled y Pentref.

Os nad oes derbynfa ar gael, bydd yr asesiad yn cael ei seilio ar agweddau "Croeso ac Effeithlonrwydd y Gwasanaeth" a "Chynnwys a chywirdeb y Llawlyfr" yn unig.

Glanweithdra

- Gweler uchod.

Cynllun a maint y tu mewn

- Bydd yr asesydd yn chwilio am loriau a dodrefn, addurniadau a dylunio mewnol o ansawdd da. Bydd faint o le sydd i'r ymwelwyr ei ddefnyddio, yn ogystal â nifer y seddi sy'n cael eu darparu, yn cael eu hystyried wrth asesu. Dylai'r dderbynfa fod yn lle croesawgar a deniadol - mae argraffiadau cyntaf y cwsmer yn hynod o bwysig.

Addurniadau a chynnal a chadw

- Rhaid cynnal a chadw'r lle yn dda, a rhaid iddo fod yn ddeniadol. Unwaith eto, mae'r argraffiadau cyntaf yn bwysig.

Croeso ac effeithlonrwydd y gwasanaeth

- Mae'n bwysig bod ymwelwyr yn gallu cael sylw yn gyflym, a bod gwasanaeth "bob amser gyda gwên". Bydd cymorth sy'n cael ei gynnig i gwsmeriaid; drwy fynd â'r cwsmer i'r ystafell, y caban gwyliau neu'r garafán, yn ogystal â faint o wasanaethau derbyn sy'n cael eu cynnig, yn cael eu hystyried wrth asesu.

Lletygarwch a Chyfeillgarwch
Lefelau cwrteisi a chymdeithasu a sgwrsio.

Cynnwys a chywirdeb y Llawlyfr

- Mae'r agwedd hon wedi'i chynllunio i asesu argraffiadau'r cwsmeriaid cyn iddynt gyrraedd. Gallai'r asesydd roi'r agwedd hon ar brawf drwy ffonio i ofyn am lawlyfr, a cheisio dilyn y map. Gellid nodi'r amser a gymerwyd cyn i'r wybodaeth gyrraedd, yn ogystal â pha mor gywir y mae'r llawlyfr yn portreadu'r busnes a'i gyfleusterau.

SIOPAU/SALONAU

Wrth asesu'r siop(au)/salon(au), bydd yr asesydd yn ystyried math a maint y busnes yn ofalus.

Glanweithdra

- Gweler tudalen 6.

Cynllun y tu mewn

- Bydd yr asesydd yn chwilio am ddigon o le i'r nifer tebygol o gwsmeriaid/defnyddwyr allu ei ddefnyddio, yn ogystal ag ansawdd a pha mor gyfleus yw'r cynllun ac arddangosfa'r nwyddau.

Addurniadau a chynnal a chadw

- Rhaid cynnal a chadw'r lle yn dda, a rhaid iddo fod yn ddeniadol i sicrhau marciau uchel.

Ffitiadau a Lloriau

- Bydd asesiad o ansawdd a chyflwr y gosodiadau a'r ffitiadau a'r lloriau yn cael ei gynnal, fel sy'n briodol i'r cyfleuster.

YSTAFELLOEDD ADLONIANT

Fel gyda chyfleusterau eraill, lle mae mwy nag un ystafell adloniant, bydd asesiad 'cyfartalog' yn cael ei roi.

Glanweithdra

- Gweler tudalen 6.

Cynllun y tu mewn

- Bydd yr asesydd yn chwilio am ddigon o le i'r nifer tebygol o ddefnyddwyr allu ei ddefnyddio, yn ogystal ag edrych ar ansawdd a pha mor gyfleus yw'r cynllun. Bydd cynllun â digon o le i symud o amgylch byrddau a chadeiriau, yn ogystal â chynllun sy'n galluogi ymwelwyr i weld y llwyfan yn glir, yn cael ei ystyried yn fwy cadarnhaol.

Addurniadau a chynnal a chadw

- Rhaid cynnal a chadw'r lle yn dda, a rhaid iddo fod yn ddeniadol. Gallai fod yn fwy addurnedig nag ardaloedd eraill.

Dodrefn a Ffitiadau

- Bydd asesiad yn cael ei gynnal o ansawdd, a pha mor gyfforddus yw'r dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau, yn ogystal â'u cyflwr. Bydd hynny'n cynnwys byrddau, seddi, barrau neu gownteri gweini bwyd yn yr ystafelloedd adloniant, y goleuadau a'r lloriau etc.

Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd

- Bydd asesiad yn cael ei gynnal o ansawdd y gwasanaeth, fel sy'n briodol i'r math o fusnes. Dylai staff fod yn gymwys, effeithlon a dangos lefelau da iawn o wasanaeth i gwsmeriaid.

Lletygarwch a Chyfeillgarwch

- Lefelau cwrteisi a lefelau cymdeithasu a sgwrsio.

ARDALOEDD TRWYDDEDIG

Fel yn achos chyfleusterau eraill, lle mae mwy nag un ardal â thrwydded, bydd asesiad 'cyfartalog' yn cael ei roi.

Glanweithdra

- Gweler tudalen 6.

Cynllun y tu mewn

- Bydd yr asesydd yn chwilio am ansawdd yr addurniadau, cyflwr y waliau, y lloriau, y seddi, y byrddau, cownteri'r barrau, y dodrefn a'r lle sydd ar gael i gwsmeriaid ei ddefnyddio. Bydd y gwaith dylunio, y cynllun, yn ogystal â blodau, planhigion, lluniau etc sydd wedi'u dewis a'u gosod yn ofalus, yn cael eu hystyried wrth asesu.

Addurniadau a chynnal a chadw

- Rhaid i'r lle gael ei gynnal a'i gadw yn dda, a rhaid iddo fod yn ddeniadol.

Dodrefn a Ffitiadau

- Bydd asesiad yn cael ei gynnal o ansawdd, a pha mor gyfforddus yw'r ffitiadau a'u cyflwr. Bydd hynny'n cynnwys y byrddau, y seddi, y cownteri gweini bwyd, y goleuadau a'r lloriau etc.

Gwasanaeth

- Bydd asesiad yn cael ei gynnal o ansawdd a safon y gwasanaeth, fel sy'n briodol i'r math o fusnes. Dylai staff fod yn gymwys, effeithlon, a dangos lefelau da iawn o wasanaeth i gwsmeriaid.

Lletygarwch a Chyfeillgarwch

- Lefelau cwrteisi a chymdeithasu a sgwrsio.

TAI BWYTA A MARCHNADOEDD BWYD

Fel gyda chyfleusterau eraill, bydd asesiad 'cyfartalog' yn cael ei roi ar gyfer pob man sy'n perthyn i'r adran hon. Fodd bynnag, os oes dau gyfleuster yn yr adran, ee tŷ bwyta mawr sy'n darparu brecwast ac un pryd arall a chownter bach yn darparu prydau i'w cludo, yna bydd yr asesiad yn rhoi mwy o bwys ar y tŷ bwyta.

Glanweithdra

- Gweler tudalen 6.

Cynllun y tu mewn

- Bydd yr asesydd yn chwilio am addurniadau, cynnal a chadw y waliau, y lloriau, y seddi, y byrddau a'r dodrefn, yn ogystal â digon o le. Bydd dylunio, a chynllun da, yn ogystal â phlanhigion, blodau, lluniau etc sydd wedi'u dewis a'u gosod yn ofalus, hefyd yn cael eu hystyried wrth asesu.

Addurniadau a chynnal a chadw

- Rhaid cynnal a chadw'r lle yn dda, a rhaid iddo fod yn ddeniadol i sicrhau marciau uchel.

Addurniadau a Ffitiadau

- Bydd asesiad yn cael ei gynnal o ansawdd, a chyflwr y gosodiadau a'r ffitiadau, a pha mor gyfforddus ydynt. Bydd y rhain yn cynnwys y byrddau, y seddi, y cownter gweini, y goleuadau a'r lloriau etc.

Y Dewis o Fwyd

Bydd y dewis o fwyd sydd ar gael, yn ogystal â'r amrywiaeth ar y fwydlen, yn cael eu hasesu. Bydd y math o fusnes a'r farchnad yn cael eu hystyried.

Gwasanaeth

- Bydd asesiad yn cael ei roi am ansawdd a safon y gwasanaeth, fel sy'n briodol i'r math o fusnes. Dylai staff ddarparu gwasanaeth cymwys, a dylent fod yn gymwynasgar. Bydd gwasanaeth prydlon ac effeithlon, gyda lefelau uchel o wasanaethau i gwsmeriaid, a sgiliau technegol da, yn cael eu hystyried yn gadarnhaol.

Lletygarwch a Chyfeillgarwch

- Lefelau cwrteisi a chymdeithasu a sgwrsio.

CYFLEUSTERAU CHWARAEON

Mae'r adran hon yn cynnwys cyfleusterau mwy ffurfiol, boed hynny o dan do neu yn yr awyr agored ee cyrtiau tennis, matiau bowlio byr, cyrtiau badminton a sboncen, lawntiau bowlio etc.

Glanweithdra

- Gweler tudalen 6.

Cynllun

- Dylai maint yr offer a'r cyfleusterau cyfan weddu i'r gweithgaredd, a dylid eu cynllunio a'u lleoli mewn modd dychmygus. Bydd y berthynas rhwng y defnydd tebygol a'r maint hefyd yn cael ei hystyried wrth asesu.

Ansawdd a Chyflwr yr Adeiladau/Cyfleusterau a Chyflwr yr Offer

- Mae'r agweddau hyn yn ddwy eitem ar wahân yn yr asesiad. Yn y ddau achos, bydd yr asesydd yn ystyried ansawdd cynhenid y ddarpariaeth, yn ogystal â pha mor dda y mae'n cael ei chynnal a'i chadw.

CYFLEUSTERAU HAMDDEN

Mae'r adran hon yn cynnwys cyfleusterau mwy ffurfiol, boed hynny o dan do neu yn yr awyr agored, ee arcedau difyrion, bowlio deg, ystafelloedd pŵl/snwcer, ardaloedd chwarae i blant a phyllau hamdden neu byllau hwyl

Glanweithdra

- Gweler tudalen 6.

Cynllun

- Dylai maint yr offer a'r cyfleusterau cyfan weddu i'r gweithgaredd, a dylid eu cynllunio a'u lleoli mewn modd dychmygus. Bydd y berthynas rhwng y defnydd tebygol a'r maint hefyd yn cael ei hystyried wrth asesu.

Ansawdd a Chyflwr yr Adeiladau/Cyfleusterau a Chyflwr yr Offer

- Mae'r agweddau hyn yn ddwy eitem ar wahân yn yr asesiad. Yn y ddau achos, bydd yr asesydd yn ystyried ansawdd cynhenid y ddarpariaeth, yn ogystal â pha mor dda y mae'n cael ei chynnal a'i chadw.

CYFLEUSTERAU'R SAFLE

Er nad yw'n hanfodol darparu'r canlynol, yn amodol ar ofynion Iechyd a Diogelwch, bydd pob un yn cael ei asesu.

Amrywiaeth ac Ansawdd y Goleuadau

- Dylid darparu goleuadau sy'n gweddu i faint, math a lleoliad y busnes. Gall y golau fod yn gynnil, ac felly ni fydd yn tarfu ar yr awyrgylch, ond dylai fod yn ddigonol ar gyfer sicrhau diogelwch. Bydd angen mwy o olau ar safleoedd mawr gyda nifer o lwybrau a ffyrdd, a'r rheini sy'n cynnwys llawer o goed neu lle mae'r llety gryn bellter o'r cyfleusterau canolog, na lleoliadau bach, agored. Bydd diffyg golau digonol yn cael effaith negyddol ar ganlyniad yr asesiad.

Amrywiaeth ac Ansawdd yr Arwyddion

- Bydd arwyddion clir, sy'n cael eu cynnal mewn cyflwr da, a darparu arwyddion cyfeirio da lle bo angen, yn cael eu hystyried fel ffactorau cadarnhaol.

Cyflwr y Mannau Tân

- Lle mae mannau tân ac offer diffodd tân yn cael eu darparu, neu lle mae eu hangen, dylid eu cynllunio a'u cynnal a'u cadw yn dda. Bydd aseswyr yn edrych am ganllawiau clir am beth i'w wneud pe bai tân, ac am leoliad y ffôn agosaf.

Amrywiaeth ac Ansawdd y Cyfleusterau Casglu Sbwriel

- Bydd yr asesydd yn chwilio am gyfleusterau glân, sydd wedi'u cynllunio'n dda, gyda sgriniau chwaethus o'u hamgylch. Mae hynny'n wir yn achos unrhyw fannau casglu sbwriel neu finiau ar y safle. Bydd darpariaeth ac ansawdd yr ardaloedd a ddefnyddir i gadw sbwriel cyn iddo gael ei gasglu, y dylid eu gwarchod rhag ymosodiadau gan anifeiliaid ac adar, hefyd yn cael eu hystyried.

Ffonau Cyhoeddus

- Bydd yr asesiad yn adlewyrchu glanweithdra, ac ansawdd cynnal a chadw y ffonau yn gyffredinol, yn ogystal â faint o loches a phreifatrwydd, goleuadau, a chyfeiriaduron a chodau deialu sy'n cael eu darparu. Dylid dangos hefyd y rhifau argyfwng ar gyfer y meddyg, deintydd, ysbyty lleol etc ger y ffonau cyhoeddus.

Ffyrdd

- Mae ansawdd a chyflwr ffyrdd, gan gynnwys y ffyrdd mynediad, yn bwysig. Er nad oes rhaid iddynt gael eu gorchuddio â choncrid neu darmac, dylent fod yn gadarn ac yn llyfn. Os oes twmpathau ffordd yn cael eu gosod, dylid nodi hynny yn glir. Mae angen safleoedd parcio wedi'u dynodi i bobl anabl.

Amrywiaeth a Chyflwyniad yr Wybodaeth Leol a'r Wybodaeth i Dwristiaid

- Yn gyffredinol, po fwyaf o amrywiaeth o wybodaeth leol a gwybodaeth i dwristiaid sy'n cael eu harddangos, gorau gyd. Dylid cyflwyno'r rhain yn glir, a dylent fod yn hygyrch ac yn gyfredol. Mae'n aml yn ddefnyddiol i arddangos map mawr o'r ardal. Gellid defnyddio systemau Sgrin Arddangos.

Cyfleusterau Golchi Dillad

- Bydd pob math o gyfleusterau golchi dillad yn cael eu hasesu: o beiriannau golchi dillad a pheiriannau sychu dillad o ansawdd masnachol i beiriannau o fath domestig a/neu sinc. Dylid dynodi bod y sinciau hynny ar gyfer golchi dillad yn unig, er mwyn osgoi eu bod yn cael eu defnyddio i olchi llestri hefyd. Bydd yr asesydd yn ystyried faint o le sydd o amgylch y peiriannau a'r offer er mwyn galluogi cwsmeriaid i'w defnyddio yn hwylus. Bydd glanweithdra, yn ogystal ag ansawdd a chyflwr y peiriannau a'r offer, yn cael eu hasesu.

YR AWYRGYLCH

Glanweithdra'r Safle

- Dylai holl ardaloedd awyr agored y safle fod yn lân, heb unrhyw sbwriel na baw anifeiliaid.

Tirweddu a Chynllun

- Bydd yr asesydd yn chwilio am enghreifftiau o blannu celfydd gan ddefnyddio'r dychymyg, yn ogystal â lleoli cyfleusterau, llety ac adeiladau mewn mannau cyfleus. Dylid defnyddio nodweddion naturiol, er enghraifft pren, carreg etc i harddu'r lle. Gallai amodau yn ymwneud â'r hinsawdd a lleoliad bennu faint o blanhigion a blennir, yn ogystal â'r amrywiaeth, a bydd hynny'n cael ei ystyried.

Cynnal a Chadw'r Tir

- Bydd yr asesiad yn adlewyrchu ardaloedd â glaswellt sy'n cael eu cynnal a'u cadw yn dda, heb fannau moel na garw, a meysydd parcio, lloriau caled, gwelyau blodau a mannau plannu blodau sydd wedi cael eu tocio a'u chwynnu'n ofalus. Bydd ardaloedd sydd wedi cael eu gadael i dyfu'n wyllt ar gyfer dibenion amgylcheddol yn cael eu hystyried.

Arddull yr Adeiladau a Chynnal a Chadw'r Tu Allan

- Dylai arddull a golwg adeiladau gyd-fynd â'r amgylchedd. Dylai golwg a chynnal a chadw adeiladau ar y tu allan, a waliau, toeon, cafnau, pibellau dŵr, ardaloedd sydd wedi'u paentio etc fod mewn cyflwr da. Bydd ardaloedd storio neu gadw offer cynnal a chadw anniben, adeiladau sy'n dadfeilio, peiriannau neu gerbydau nad ydynt yn cael eu defnyddio, yn effeithio ar y radd. Bydd y tu allan i'r carfannau sefydlog yn cael eu hasesu yma.

Meysydd parcio

- Bydd ansawdd a chyflwr y meysydd parcio yn cael eu hystyried ee cilfannau â llinellau, gydag arwynebedd da. Os nad yw'r meysydd parcio yn union ger y llety, dylid sicrhau bod trefniadau yn eu lle i alluogi ymwelwyr i ddadlwytho yn agosach ato.

CYFLEUSTERAU I GARAFANNAU TEITHIOL (os yn berthnasol)

Cymhareb Nifer y Toiledau a Chawodydd – Nifer y Safleoedd

- Un o'r cwynion mwyaf cyffredin gan gwsmeriaid yw bod angen sefyll mewn rhes ac aros eich tro cyn gallu defnyddio'r cyfleusterau, neu faint o anghyfleuster a achosir gan gyfleusterau sy'n rhy brysur neu yn cael eu gor-ddefnyddio. Bydd yr agwedd hon yn cael ei defnyddio i wobrwyo'r safleoedd hynny sy'n mynd y tu hwnt i ddarparu'r nifer angenrheidiol o doiledau a chawodydd.

Cynllun Mewnol y Cyfleusterau

- Mae hyn yn cynnwys cawodydd, toiledau a chyfleusterau ymolchi. Mae awyru a goleuadau da yn bwysig. Fel arfer, bydd adeilad â digon o olau ac aer yn cael mwy o farciau nag adeilad tywyll, sydd heb ddigon o aer. Mae digon o le i symud, a thymheredd digonol y cyflenwad dŵr twym hefyd yn bwysig. Dylid darparu digon o le yn y ciwbiclau cawod a thoiledau.

Ansawdd y Gosodiadau a'r Ffitiadau

- Mae hynny'n cynnwys cyfleusterau cawod, toiledau ac ymolchi. Bydd asesiad yn cael ei gynnal o ansawdd ac amrywiaeth y gosodiadau a'r ffitiadau, a ddylai gynnwys rholiau a dalwyr papur tŷ bach, bachau, drychau, silffoedd/byrddau, blychau llwch, biniau sbwriel etc. Bydd yr asesydd hefyd yn chwilio am sychwyr gwallt, pwyntiau trydan ar gyfer eillwyr, cyfleusterau sychu dwylo, a chyfleusterau i gael gwared ar wastraff glanweithiol mewn ciwbiclau.

Ansawdd a Chynnal a Chadw'r Addurniadau, y Cyfleusterau, y Gosodiadau a'r Ffitiadau

- Mae'r asesiad hwn yn berthnasol i ansawdd a chyflwr cyffredinol yr addurniadau, y lloriau, y gosodiadau a'r ffitiadau. Bydd cydnabyddiaeth yn cael ei roi i ansawdd cynhenid gwell yn ogystal ag eitemau hŷn sydd wedi cael eu cynnal i safon ardderchog. Ni fydd eitemau sy'n edrych yn hen a/neu sydd ddim yn gweithio bellach yn cael sgôr mor uchel. Dylai lloriau a waliau fod yn hawdd eu glanhau, ee teils, sgrin sment, melamin etc. Bydd ansawdd a chyflwr toiledau, sinciau a theils yn bwysig. Bydd seddi sy'n rhydd neu wedi torri a thapiau, gwaith growtio, teils sydd heb eu gosod yn iawn, neu deils â chraciau neu dolciau etc yn cael dylanwad negyddol ar yr asesiad. Bydd paent sy'n plisgo oddi ar y waliau, nenfydau a gwaith pren, graffiti a mathau eraill o fandaliaeth hefyd yn cael effaith negyddol ar yr asesiad terfynol. Dylai ffenestri a drysau fod mewn cyflwr da, ac ni ddylai goleuadau a phibau fod wedi rhydu.

Glanweithdra

- Gweler tudalen 6.

Cyfleusterau Gwaredu Cemegion a Mannau Gwaredu Gwastraff o Gerbydau Modur (MVWDP)

- Bydd ymddangosiad y cyfleusterau y tu mewn a'r tu allan, yn ogystal â glanweithdra a chyflwr y cyfleusterau yn cael eu hasesu. Bydd darparu padell/powlen grochenwaith neu ddur gwrthstaen ac ardal y mae'n hawdd ei glanhau o amgylch y cyfleusterau hynny, gyda system llifolchi neu dap a phibell ar gyfer golchi, mewn lle caeedig neu o dan do, yn cael mwy o farciau na draen neu dwll yn y ddaear yn unig.

Ansawdd y Pwyntiau Trydan

- Dylai pwyntiau trydan a gwasanaethau eraill ar gyfer y safleoedd i garafannau teithiol a chysylltiadau gwasanaeth i garafannau sefydlog fod mor daclus ac mor ddisylw â phosibl.

LLETY

POB LLETY Â GWASANAETH A LLETY HUNANDDARPAR

ARGRAFFIADAU CYFFREDINOL, LLE A MOETHUSRWYDD

Mae'r adran hon yn gysylltiedig â chynllun, patrwm, lle, awyru, lle i storio etc, a pha mor hwylus y gellir cyrraedd y cypyrddau, y droriau, defnyddio'r offer a symud drwy'r llety.

Isafswm y Gofynion Mynediad

- Dylid darparu o leiaf un ffenestr sy'n agor i'r awyr agored ym mhob ystafell fyw ac ystafell wely.
- Dylid sicrhau bod digon o awyr, digon o le i symud a rhaid i offer, a dylai cypyrddau, drysau a droriau fod yn hygyrch.
- Ni ddylai fod unrhyw arwydd o leithder.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Lle boddhaol gyda chynllun boddhaol a'r lle i symud yn ddigonol.		Lle digonol i symud yn rhydd, a lefel dda o foethusrwydd.		Lle helaeth i symud yn rhydd a lefel uchel o foethusrwydd. Ardal ar gael i storio bagiau heb adael llanast yn yr ystafell, a heb rwystro'r mynediad.
	Ystafelloedd clir.		Cynllun cyfleus o ran celfi sy'n sicrhau bod y lle yn ymarferol.		Defnydd hwylus a chyfleus o'r cyfleusterau.
	Amgylchedd derbyniol i ymwelwyr, heb lefelau o sŵn, arogl, mwg etc sy'n tarfu.		Mynediad i ddwy ochr gwely dwbl.		Mynediad hael i ddwy ochr gwely dwbl.
					Awyrgylch ffres a digon o aer.
	Lefelau sŵn rhesymol, gyda chyn lleied o sŵn ymwthiol â phosibl.				Lle cyfforddus i'r nifer mwyaf posibl o ymwelwyr fwyta. Dewis da o seddi cyfforddus.

YR ARDALOEDD BYW/BWYTA A'R GEGIN (LLETY HUNANDDARPAR YN UNIG) ADDURNIADAU/GORFFENIAD MEWNOL

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd a chyflwr gorchuddion y waliau, yr ardaloedd â theils, y gwaith paentio, y gwaith pren etc.

Isafswm y Gofynion Mynediad

- Rhaid i'r holl ardaloedd sydd wedi'u paentio, y gwaith pren, gorchuddion y waliau etc gael eu cynnal mewn cyflwr da.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Addurniadau ymarferol, waliau a nenfydau; cydweddu i raddau.		Addurniadau o ansawdd da mewn cyflwr da, gorffeniadau addas a gwydn fel teils mewn ardaloedd gweithio. Sblasgefn yn bwysig yn yr ardal goginio. Teils, gwaith growtio a gwaith selio mewn cyflwr glân. Cyn lleied o farciau, diferion, saim neu arwyddion eraill o goginio â phosibl. Defnyddio lluniau etc, lle bo hynny'n briodol, yn arbennig ar waliau plaen.		Addurniadau o ansawdd ardderchog, a'r cyfan yn cydweddu. Gorchuddion waliau a theils o ansawdd uchel mewn cyflwr ardderchog, gorffeniadau proffesiynol i bob agwedd ar yr addurniadau. Defnydd deniadol o luniau, printiau ac addurniadau eraill.

LLETY HUNANDDARPAR

GOLAU/GWRES

Isafswm y Gofynion Mynediad

Golau: Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, amrywiaeth, math, darpariaeth a lleoliad y prif oleuadau a'r goleuadau eilaidd, darpariaeth a lleoliad yr unedau ynni, switsys golau etc.

- **Rhaid darparu golau trydan.**

Gwres: Mae'r adran hon yn gysylltiedig â'r amrywiaeth, y math a phriodoldeb unrhyw fath o wres – ffynhonnell wres ar y llawr, paneli ar y waliau neu nenfydau neu wres canolog.

- Dylid darparu ffynonellau digonol o wres, gan ystyried amrywiadau tymhorol a daearyddol.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Lefelau digonol o oleuadau, wedi'u lleoli'n briodol er diogelwch.		Goleuadau wedi'u lleoli'n dda, yn rhoi lefel dda o olau. Gallai gynnwys goleuadau sy'n goleuo ardaloedd coginio.		Lefelau ardderchog o olau ar gyfer dibenion amrywiol ee darllen, coginio. Yn cynnwys goleuadau ar y nenfwd a goleuadau ychwanegol sy'n hawdd eu haddasu. Gallai gynnwys golau y popty/hob a'r arwynebau gweithio.
			Digonedd o olau naturiol.		
			Socedi trydan wedi'u lleoli'n dda.		Nifer da o socedi trydan i ganiatáu hyblygrwydd.
	Lefelau digonol o wres ar gyfer pob ardal.		Lefelau effeithiol o wres yn darparu tymheredd cyson, hawdd ei reoli ledled y llety.		Gwres canolog wedi cael ei osod yn dda ym mhob ystafell. Lefelau uchel o wres yn cael eu darparu, gan gynnig hyblygrwydd a moethusrwydd.
					Gwydro dwbl i gadw gwres.

GOSODIADAU, DODREFN, LLENNI A DEUNYDDIAU A FFITIADAU

Isafswm y Gofynion Mynediad

Ystafelloedd byw/bwyta: Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, ymddangosiad, cyflwr, trefniant a maint etc yr holl ffitiadau, ee gwresogyddion, teledu etc, a'r holl ddodrefn, ee dodrefn esmwyth a llenni a deunyddiau, byrddau a chadeiriau'r ystafell fwyta, cypyrddau, silffoedd, clustogau, llenni a bleindiau. Mae ffitiadau golau a ffenestri hefyd yn cael eu hystyried.

- Rhaid gosod llenni didraidd neu fleindiau ar bob ffenestr, gan gynnwys ar ddrysau mewn cartrefi gwyliau carafán lle mae ychydig o'r lle cysgu yn yr ystafell fyw.
- Bwrdd bwyta a chadeiriau sy'n ddigon o faint ar gyfer y nifer mwyaf posibl o ymwelwyr.

- Cadeiriau a/neu soffa esmwyth sy'n ddigon o faint ar gyfer y nifer mwyaf posibl o ymwelwyr.

Y Gegin: Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, amrywiaeth a chyflwr arwynebau gweithio, cypyrddau, unedau cegin, sinciau, llenni a/neu fleindiau, powlenni golchi llestri, draenwyr, byrddau smwddio, offer glanhau etc.

- Rhaid gosod llenni didraidd a bleindiau ar bob ffenestr.
- Rhaid darparu sinc sy'n cynnwys bwrdd diferu, rhesel i sychu llestri, cyflenwad o ddŵr twym a dŵr oer i'w yfed.

GOSODIADAU, LLENNI A DEUNYDDIAU A GOSODIADAU (ARDALOEDD CYHOEDDUS)

Isafswm y Gofynion Mynediad

- Rhaid darparu o leiaf un arwynebedd gweithio glanwaith a lle storio addas ar gyfer bwyd.
- Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn gosod rheidrwydd ar y perchennog/y person sy'n gyfrifol am bob eiddo/busnes i gynnal asesiad risgiau tân, ac i weithredu fel y mae'n briodol i ddiddymu a lleihau'r risgiau. Ar ôl cynnal yr asesiad hwnnw, efallai y byddwch yn penderfynu gosod offer diffodd tân, ond mae'r penderfyniad hwnnw yn cael ei wneud yn annibynnol ar Croeso Cymru.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Darpariaeth dodrefn, llenni a deunyddiau a ffitiadau sy'n gynnil ond yn ddigonol o ran ansawdd a nifer.		Dodrefn o ansawdd da. Mwy o amrywiaeth o ran soffa a/neu gadair freichiau gyda sylfaen â sbrings. Mwy o amrywiaeth.		Dodrefn o ansawdd uchel sy'n cynnig llawer o foethusrwydd. Cyfleusterau bwyta helaeth ar gyfer y nifer mwyaf posibl o bobl.
	Dim llawer o gydweddu. Llenni o hyd a lled digonol i orchuddio'r ffenestri.		Cydweddu da. Llenni sylweddol wedi'u leinio ar bob ffenestr.		Deunyddiau meddal moethus, llenni sy'n ddigon o faint, gallai gynnwys leinin a deunyddiau i glymu'r llenni. Cydweddu ardderchog rhwng y dodrefn a'r deunyddiau.
	Darperir lle i storio eitemau pan fo parciau yn hysbysebu bod lle i gysgu yn yr ystafell fyw.				
	Digon o le i storio a digon o arwynebau gweithio er mwyn hwylustod. Dylai popeth fod mewn cyflwr da a derbyniol.		Ardaloedd storio sy'n hygyrch ac arwynebau gwydn. Unedau sydd wedi'u gosod yn dda.		Unedau gosod o ansawdd uchel a digon o arwynebedd gweithio a lle storio.

LLORIAU

Isafswm y Gofynion Mynediad

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, math a chyflwr y carpedi, rygiau, lloriau finyl, lloriau pren etc. Rhaid ystyried pa mor addas yw'r lloriau yn y gegin.

- Rhaid i bob ystafell ymolchi gynnwys gorffeniadau neu orchuddiadau addas ar y llawr.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Lloriau ymarferol a gwydn sydd wedi'u gosod yn dda. Peth ystyriaeth wedi'i roi i ymarferoldeb a glanweithdra.		Lloriau o ansawdd da mewn cyflwr cadarn, sy'n gyfforddus dan draed.		Lloriau o ansawdd uchel, mewn cyflwr ardderchog, a sylw amlwg wedi'i roi i agweddau glanweithdra a diogelwch.

LLESTRI, CYLLYLL A FFYRC AC OFFER

Isafswm y Gofynion Mynediad

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, amrywiaeth a chyflwr y llestri, y cyllyll a ffyrc a'r gwydrau, amrywiaeth a chyflwr y sosbenni, y llestri coginio a'r offer coginio/paratoi bwyd.

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, amrywiaeth a chyflwr yr holl gyfarpar nwy a/neu drydan yn y gegin.

- Popty gyda ffwrn a gridyll ac o leiaf tair ring coginio (2 os ar gyfer 2 ymwelydd yn unig).
- Oergell gyda chyfleusterau i wneud iâ.
- Rhaid darparu digon o lestri, cyllyll a ffyrc a gwydrau ar gyfer y nifer mwyaf posibl o ymwelwyr.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Mwy na digon o gyflenwadau ar gyfer nifer yr ymwelwyr. Cyllyll a ffyrc, er yn rhai ysgafn, yn cydweddu. Y llestri, er y gall rhai o ansawdd gwell, yn ymarferol, yn yr un patrwm. Dewis bach o wydrau ee tymbleri.		Mwy na digon o gyflenwadau ar gyfer nifer yr ymwelwyr. Cyllyll a ffyrc o ansawdd trymach. Llestri o ansawdd da, yn wydn ac yn cydweddu. Ni ddylent fod wedi eu tolcio na'u staenio.		Bwrdd smwddio os nad oes i gael yn y golchdy. Niferoedd yr eitemau llawer uwch na nifer tebygol yr ymwelwyr. Cyllyll a ffyrc dur gwrthstaen o'r ansawdd uchaf. Llestri o ansawdd uchel sy'n cydweddu, ee llestri ar gyfer gwestai, yn cynnwys platiau bach prif blatiau, powlenni cawl etc. Gwydrau o amryw o feintiau o ansawdd uchel sy'n cydweddu.

LLESTRI, CYLLYLL A FFYRC AC OFFER (parhad)

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Dewis derbyniol o sosbenni. Dolenni yn ddiogel a chaeadau yn ffitio yn dda.		Sosbenni mewn amryw o feintiau, oll o bwysau da a chadarn.		Yr holl offer coginio o'r ansawdd gorau posibl.
	Efallai bod dewis helaeth o offer, ond nid ydynt oll o'r un patrwm.		Dim offer plastig sydd wedi colli eu siâp. Dewis da o gyllyll, llwyau pren, etc.		Dewis helaeth o eitemau ychwanegol, a phob un yn cydweddu. Dewis o eitemau sy'n addas ar gyfer y popty microdon lle bo hynny'n briodol.
	Dewis cyfyngedig o offer. Gall rhai eitemau fod yn hŷn ond mewn cyflwr diogel, derbyniol.		Offer mewn cyflwr da ac wedi eu cynnal a'u cadw yn dda, ee eitemau heb arwydd o rwd na difrod mawr.		Yr holl offer o'r ansawdd gorau posibl.
			Blwch iâ o faint da yn yr oergell.		Dewis helaethach o eitemau o ansawdd ardderchog gan gynnwys oergell/rhewgell, peiriant golchi llestri etc.

GLANWEITHDRA

Isafswm y Gofynion Mynediad

- Rhaid i eiddo, dodrefn ac offer gael eu glanhau yn drylwyr rhwng pob arhosiad.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Pob arwyneb ac offer fod yn lân, ac yn ddi-lwch.		Tystiolaeth bod sylw wedi'i roi i fanylion, yn arbennig ar lefel uchel ac isel.		Glanweithdra o ansawdd arbennig o uchel.
	Pob carped wedi cael ei hwfro a'r lloriau wedi eu glanhau.		Arwynebau glân a ffres. Pob ardal yn arogli'n ffres ac yn lân ar gyfer croesawu ymwelwyr.		Arwynebau yn disgleirio, dim crafiadau na marciau.
			Sylw arbennig wedi'i roi i'r popty, yr oergell ac i du mewn cypyrddau, llestri, cyllyll a ffyrc ac offer.		Tystiolaeth o lanhau trylwyr a lefel uchel o sylw i fanylion.
					Lloriau ac offer coginio di-staen, gan gynnwys y popty a'r oergell.
					Sylw arbennig wedi'i roi i dyllau aer neu beiriannau echdynnu.

STOCRESTR O OFFER LLETY HUNAN DDARPAR (CARTREFI GWYLIAU CARAFÁN, CABANAU GWYLIAU A FFLATIAU)

FESUL PERSON

Powlen brecwast/cawl
Cambrenni dillad x 4
Cwpan wy
Fforc (mawr a bach)
Cyllell (mawr a bach)
Mŵg
Plât (mawr a bach)
Llwy (ar gyfer pwdinau a the)
Cwpan te a soser
Tymbler

2 FESUL CARTREF GWYLIAU/CABAN

Blychau llwch (lle caniateir smygu)
Dwster
Llwyau bwrdd

FESUL GWELY

2/3 blanced neu 1 duvet a gorchudd ac 1 gobennydd

(Ar gyfer gosod yn ystod y gaeaf, neu osod yn gynnar neu'n hwyr iawn yn ystod y tymor, dylid cynyddu maint y dillad gwely a darparu gwres digonol).

1 FESUL CARTREF GWYLIAU CARAFÁN/CABAN GWYLIAU/FFLAT

Blwch/Cynhwysydd i ddal bara
Cyllell fara
Bwrdd bara/torri
Dysgl fenyn
Cyllell a fforc i dorri cig
Dysgl caserol
Colandr
Set pupur a halen (2 ddarn)
Tynnwr corcyn/teclyn agor poteli
Sleis bysgod
Clwtyn llawr
Padell ffrio
Gratur
Tegell
Siswrn cegin
Lletwad
Jwg laeth
Powlen neu fasn gymysgu
Dysgl rhostio ar gyfer y popty
Llwy blastig/bren
Stwnsiwr tatws
Pliciwr tatws
Sosbenni a chaeadau (mawr, canolig, bach)
Cyllell lysiau finiog
Powlen siwgr
Ysgub
Bwced
Darparu ysgubwr carpedi neu sugnwr llwch
Cyfryngau glanhau (hylif golchi llestri etc)
Bin â chaead neu fin â bagiau ar gyfer gwastraff glanweithiol yn yr ystafell ymolchi
Bin â chaead yn y gegin
Mat wrth y drws
Padell lwch a brwsh
Jwg fesur
Drych
Sgwrydd sosbenni/mop llestri
Larwm/larymau tân
Tebot
Brwsh tŷ bach a daliwr
Papur tŷ bach a daliwr
Hambwrdd
Teclyn agor tuniau
Powlen golchi llestri
Jwg ddŵr
Chwisg

Diffoddwr tân (neu offer diffodd tan fel sy'n ofynnol yn ôl yr asesiad risg)

YSTAFELLOEDD GWELY – POB LLETY Â GWASANAETH A LLETY HUNANDDARPAR

ADDURNIADAU/GORFFENIAD MEWNOL

Isafswm y Gofynion Mynediad

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd a chyflwr gorchuddion y waliau, nenfydau, y gwaith paent, y gwaith pren etc.

- Rhaid i'r uchod fod mewn cyflwr da.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Addurniadau ymarferol; cydweddu i raddau.		Addurniadau o ansawdd da, wedi eu cynnal a'u cadw yn dda, heb farciau. Gorchuddion waliau wedi'u gorffen yn dda, ac o ansawdd uchel. Gorchuddion y waliau a'r nenfydau wedi'u gosod yn dda. Defnyddio lluniau etc, lle bo hynny'n briodol, yn arbennig ar waliau plaen.		Addurniadau ardderchog gyda llawer o sylw i fanylion. Gorchuddion waliau o ansawdd uchel a'r holl addurniadau wedi'u gorffen yn broffesiynol. Defnydd deniadol o luniau, printiau ac addurniadau eraill.

GOLAU/GWRES

Isafswm y Gofynion Mynediad

Golau: Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, amrywiaeth, math darpariaeth, ymddangosiad a lleoliad y prif oleuadau a'r goleuadau eilaidd, darpariaeth a lleoliad y pwyntiau trydan, switsys golau etc.

- Rhaid i bob ystafell wely gael ei goleuo'n ddigonol gyda goleuadau trydan.

Gwres: Mae'r adran hon yn gysylltiedig â'r amrywiaeth, y math ac ansawdd y gwres.

- Dylid darparu digon o wres ym mhob ystafell wely, gan ystyried amrywiadau tymhorol a daearyddol.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Goleuadau gyda chysgodlenni sy'n briodol i fath, maint a siâp yr ystafell wely. Golau naturiol derbyniol. Mewn cartrefi gwyliau carafán, gellir benthyg gwres o'r ardaloedd byw ond rhaid iddynt er hynny fod yn ddigonol. Gallai gynnwys gwresogyddion annibynnol, ond rhaid ystyried diogelwch.		Goleuadau wedi'u lleoli'n dda gan roi digon o olau ar gyfer darllen etc. Digonedd o olau naturiol. Pwyntiau trydan wedi'u lleoli'n dda. Lefel dda o wres, gyda rhywfaint o reolaeth thermostatig ledled y llety.		Goleuadau o ansawdd amrywiol, wedi'u lleoli'n dda ac yn addas i bob diben. Rheolyddion yn rhoi lefelau amrywiol o olau fel sy'n briodol. Golau naturiol ardderchog. Nifer da o socedi trydan er mwyn hyblygrwydd. Lefelau effeithiol o wres yn darparu tymheredd cyffredinol unffurf, ac y gall ymwelwyr ei reoli.

GOSODIADAU, DODREFN, LLENNI A DEUNYDDIAU A FFITIADAU

Isafswm y Gofynion Mynediad

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, ymddangosiad, trefniant, maint a chyflwr yr holl ffitiadau, ee gwresogyddion, goleuadau, drychau etc, a'r holl ddodrefn, ee deunyddiau, llenni a bleindiau etc.

- Rhaid gosod llenni didraidd neu fleindiau ar bob ffenestr.
- Mewn o leiaf un ystafell wely i oedolion, rhaid darparu bwrdd ymbincio neu gyffelyb gyda drych a chwpwrdd dillad neu le i hongian dillad.
- Rhaid darparu digon o ddroriau ym mhob uned, a rhaid darparu o leiaf un ystafell wely dwbl i oedolion neu ystafell â dau wely. Gellir darparu digon o le ar silffoedd yn hytrach na darparu droriau.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Darpariaeth dodrefn, llenni a deunyddiau a ffitiadau sy'n gynnil ond yn ddigonol o ran ansawdd a nifer; dim llawer o gydweddu.		Ffitiadau o ansawdd da, mewn cyflwr da, ac yn addas i'w defnyddio. Maint a nifer y dodrefn yn cydweddu â'r lle sydd ar gael.		Dodrefn modern o ansawdd ardderchog, ac wedi'u hadeiladu'n gadarn, yn ogystal â digonedd o le i storio ar silffoedd. Dylai bod digon o le i storio, hy ar gyfer bagiau.
	Digon o le i storio mewn droriau neu ar silffoedd.		Cydweddu da. Lle da mewn droriau/ar silffoedd.		Dodrefn a deunyddiau meddal moethus, o ansawdd cynhenid uchel, yn cydweddu'n ardderchog.
	Holl orchuddion y ffenestri wedi'u gosod yn iawn.		Llenni mawr sy'n ddigonol o ran hyd a lled i orchuddio'r ffenestri yn hawdd.		Gorchuddion y ffenestri yn cyfleu tipyn o foethusrwydd. Gallai gynnwys pelmetau a deunyddiau i glymu'r llenni. Leiniau o ansawdd uchel.
			Goleuadau o ansawdd da gyda chysgodlenni priodol.		Goleuadau o'r ansawdd uchaf posibl.

GORCHUDDION Y LLORIAU

Isafswm y Gofynion Mynediad

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, math a chyflwr y carpedi, y rygiau, y lloriau finyl, y lloriau pren etc.

- Rhaid i bob ystafell gynnwys gorffeniadau neu orchuddiadau priodol ar y llawr. Heblaw lle ceir carpedi gosod, rhaid darparu rygiau gwrthlithro ger y gwelyau.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Lloriau sy'n ddigon cyfforddus, mewn cyflwr glân ac ymarferol a heb ôl traul.		Lloriau o ansawdd da, wedi'u gosod yn dda, mewn cyflwr diogel, sy'n gyfforddus dan draed.		Lloriau o ansawdd uchel, mewn cyflwr ardderchog, wedi'u gosod gan berson proffesiynol.

GWELYAU A DILLAD GWELY

Isafswm y Gofynion Mynediad

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd a chyflwr y gwelyau, matresi, pennau'r gwelyau, dillad gwely etc.

- Rhaid i bob gwely a matras fod mewn cyflwr da, gyda digon o ddillad gwely, os y'u darperir. Rhaid i bob matras fod yn fatras â sbrings mewnol neu fatras sbwng neu o ansawdd cyffelyb.
- Lle darperir dillad gwely, rhaid iddo gael ei newid ar gyfer pob ymwelydd newydd, ac fel sy'n briodol yn ystod ymweliadau am bythefnos neu fwy.
  Nid yw llieiniau nylon yn dderbyniol.
- Lleiafswm maint y gwelyau: Sengl i Oedolyn neu blentyn 6' x 2'
  Dwbl i Oedolyn 6'x'4'
- Fel arfer bydd o leiaf un ystafell wely i oedolion, heb wely bync. Pan fydd y lle cysgu mewn gwelyau bync yn unig, rhaid nodi hyn yn yr holl hysbysebion ac anfon manylion ysgrifenedig i ddarpar ymwelwyr.
- Pan fo'r trefniadau cysgu yn cynnwys defnyddio gwelyau soffa yn ardal yr ystafell fyw yn achlysurol, dylid nodi hynny'n glir yn y llawlyfr a/neu yn yr wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir wrth gadw lle yn y llety.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Gwelyau a matresi o ansawdd digonol. Caniateir gorchuddion matresi plastig neu rwber ond ni anogir eu rhoi ar welyau i oedolion.		Gwely cyfforddus o ansawdd da, matras cadarn a gwaelod cadarn. Gorchuddion matresi o ansawdd gwell.		Gwely o ansawdd ardderchog ee â gwaelod a matras â sbrings; pen gwely glân yn cynnig tipyn o foethusrwydd. Gorchuddion matresi o ansawdd uchel.
	Gwelyau wedi'u cyflwyno mewn modd digonol, gyda dillad gwely glân lle y'u darperir a gorchuddion y gwely mewn cyflwr da.		Gwelyau wedi'u cyflwyno yn dda, gyda digonedd o ddillad gwely o ansawdd da, newydd eu golchi, ac sy'n cydweddu.		Dillad gwely wedi'u golchi sy'n cydweddu ac yn cael eu newid bob dau ddiwrnod. Dewis o ddillad gwely ar gael, ee carthenni trwchus wedi'u cwiltio neu flancedi neu duvets o ansawdd cyffelyb gyda thrwch priodol. Popeth o ansawdd uchel ac yn cydweddu ag addurniadau'r ystafell wely a'r llenni a'r deunyddiau eraill.

GWELYAU A DILLAD GWELY (parhad)

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Amrywiaeth ddigonol o ddillad gwely, gan gynnwys digon o flancedi/duvet. Os darperir dillad gwely ychwanegol, dylai fod yn lân, a ffres, ac yn ddymunol, wedi'u lapio. Byddai'r holl ofynion uchod yr un mor berthnasol i ddarpariaeth cysgu ychwanegol fel gwelyau soffa.		Clustogau a dillad gwely ychwanegol ar gael.		Maint y gwely yn fwy na'r maint lleiaf sylfaenol. Clustogau gwrth-alergedd ar gael. Cyflwyniad cyffredinol o ansawdd uchel.

GLANWEITHDRA

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Pob arwyneb yn lân ac yn ddi-lwch. Pob ardal yn arogli'n ffres a glân. Pob carped wedi'u hwfro ac yn lân. Dim tystiolaeth o lwydni na marciau ar lenni na ffenestri.		Sylw amlwg wedi'i roi i fanylion gan gynnwys gwirio'r droriau a'r cypyrddau dillad. Sylw arbennig wedi'i roi i ardaloedd ar lefel uchel ac isel ee y ffenestri a dan y gwelyau.		Ansawdd uchel iawn o lanweithdra. Pob ardal yn cael ei lanhau'n ddyddiol mewn llety â gwasanaeth. Arwynebau'n disgleirio – tystiolaeth o lanhau trylwyr a llawer o sylw i fanylion.

YSTAFELLOEDD YMOLCHI A THOILEDAU - POB LLETY Â GWASANAETH A LLETY HUNANDDARPAR

ADDURNIADAU/GORFFENIAD MEWNOL

Isafswm y Gofynion Mynediad

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd a chyflwr gorchuddion y waliau, y nenfydau, yr ardaloedd â theils, y gwaith paent, y gwaith pren etc.

- Rhaid i bopeth gael ei gynnal a'i gadw yn dda.

Dangosyddion	1	2	3	4	5
Quality Ansawdd	Addurniadau ymarferol mewn cyflwr da. Dylai'r teils fod mewn cyflwr da.		Addurniadau ymarferol sy'n cael eu cynnal a'u cadw yn dda. Gorchuddion y waliau a'r nenfydau wedi'u gosod yn dda. Popeth mewn cyflwr da. Dylai'r gwaith selio a growtio fod yn lân.		Addurniadau mewnol ardderchog. Gorffeniad proffesiynol i bob agwedd ar yr addurniadau. Addurniadau o ansawdd uchel, a'r gwaith selio a growtio mewn cyflwr ardderchog. Defnydd deniadol o addurniadau atodol, lle bo hynny'n briodol.

GOLAU/GWRES

Isafswm y Gofynion Mynediad

Golau: Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, amrywiaeth, math, darpariaeth, ymddangosiad a lleoliad y prif oleuadau a'r goleuadau eilaidd, darpariaeth a lleoliad y switsys golau etc.

- Rhaid i bob ystafell ymolchi/cawod a thoiled gael eu goleuo'n ddigonol gyda goleuadau trydan.
- Rhaid darparu pwynt trydan neu addasydd ar gyfer eilliwr ger drych yn yr ystafell ymolchi neu ystafell wely.

Gwres: Mae'r adran hon yn gysylltiedig â'r ystod, y math ac ansawdd y gwres.

- Dylid darparu digon o wres ar bob adeg, gan ystyried amrywiadau tymhorol a daearyddol.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Goleuadau wedi'u gorchuddio digonol sy'n ymarferol eu defnyddio ac wedi'u lleoli'n briodol. Gwres digonol ar gyfer maint yr ystafell. Awyru effeithiol.		Goleuadau wedi'u lleoli'n dda, gan roi digon o olau, ee dros ddrychau ac mewn cawodydd. Rheilen tywelion neu wresogydd panel yn y brif ystafell ymolchi.		Lefelau ardderchog o olau ym mhob ardal. Gwres ar gael mewn ystafelloedd ymolchi cyffredin ac ystafelloedd ensuite.

GOSODIADAU A FFITIADAU

Isafswm y Gofynion Mynediad

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, ymddangosiad, cyflwr, a pha mor hawdd i'w defnyddio y mae'r holl osodiadau, ee goleuadau, drychau etc a'r holl ddeunyddiau, ee llenni, bleindiau etc.

- Rhaid bod modd darparu dŵr poeth bob amser.
- Rhaid darparu ffenestr sy'n agor a/neu ddull digonol o awyru.
- Rhaid gosod llenni didraidd neu fleindiau ar bob ffenestr.
- Rhaid i bob llety gynnwys o leiaf un ystafell ymolchi, gyda bath a/neu gawod, rheilen tywelion, toiled, papur tŷ bach a daliwr a sinc ymolchi gyda drych gerllaw.
- Pan nad yw'n ystafell ymolchi ensuite, rhaid darparu clo neu follt ar ddrysau ystafelloedd ymolchi a thoiledau.
- Dylai arwyneb y gawod a/ neu fath fod yn un gwrthlithro neu dylid darparu mat gwrthlithro i'w ddefnyddio yn y gawod neu fath.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Y ffitiadau o ansawdd derbyniol.		Offer cadarn, sy'n cydweddu, o ansawdd da ac sydd wedi cael eu gosod yn dda. Crochenwaith glanweithiol sy'n cydweddu.		Bath a/neu gawod, gyda gosodiadau o ansawdd uchel, ee bathau neu giwbiclau cawod mwy o faint neu sgriniau cawod. Sinciau o faint llawn. Offer sy'n hawdd eu defnyddio.
	Pwysedd dwr digonol a system ddraenio foddhaol.		Pwynt ar gyfer eilliwr yn agos i ddrych, os nad yw mewn ystafell wely.		Defnyddio crochenwaith glanweithiol yn hytrach na phlastig.
	Gorchudd ffenestr priodol wedi'i osod yn gywir.				Gorchudd ffenestr o ansawdd uchel ac yn ffitio'n dda, a hyd a lled digonol.
	Lle storio digonol ar silffoedd ar gyfer pethau'r ymwelwyr.		Lle storio da ar silffoedd ar gyfer pethau'r ymwelwyr.		Digonedd o le cyfleus i storio ar silffoedd ar gyfer pethau'r ymwelwyr.
			Goleuadau o'r ansawdd uchaf gyda chysgodlenni priodol.		Ffitiadau o'r ansawdd uchaf, gan gynnwys switsys a chortynnau tynnu.

LLORIAU

Isafswm y Gofynion Mynediad

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, math a chyflwr y carpedi, y rygiau, y lloriau finyl, y lloriau pren etc.

- Rhaid i bob ystafell ymolchi gynnwys gorffeniadau neu orchuddiadau addas ar y llawr.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Lloriau wedi'u gosod yn gywir. Lloriau ymarferol, gwrthlithro, mewn cyflwr da.		Lloriau wedi'u gosod yn dda, o ansawdd da, mewn cyflwr cadarn, sy'n gyfforddus dan draed.		Lloriau wedi'u gosod gan berson proffesiynol, o ansawdd uchel, mewn cyflwr ardderchog.

GLANWEITHDRA

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Pob arwyneb yn lân a heb eu baeddu. Y carpedi/lloriau yn lân ac yn ffres.		Tystiolaeth o roi sylw i fanylion, gan gynnwys ardaloedd y tu ôl i'r toiledau etc. Y lloriau yn gwbl lân, llenni'r gawod heb golli lliw.		Tystiolaeth o lanhau o'r safon uchaf. Yr offer ac arwynebau waliau â theils yn disgleirio ac yn ffres. Llawer o sylw i fanylion, yn enwedig peiriannau echdynnu.

ARDALOEDD CYHOEDDUS (LLETY Â GWASANAETH YN UNIG)

ADDURNIADAU/GORFFENIAD MEWNOL

Isafswm y Gofynion Mynediad

Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd a chyflwr gorchuddion y waliau, yr ardaloedd â theils, y gwaith paent, y gwaith pren etc.

- Rhaid i'r holl waith paent, y gwaith pren, gorchuddion y waliau etc gael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Addurniadau ymarferol, gan gynnwys waliau a nenfydau; cydweddu i raddau.		Y tu mewn yn ddeniadol, gyda thystiolaeth o ddylunio wedi'i gydweddu. Gorchuddion y waliau wedi'u gorffen yn dda, o ansawdd da. Defnyddio lluniau etc, lle bo hynny'n briodol, yn arbennig ar waliau plaen.		Ansawdd ardderchog o addurniadau, a phopeth yn cydweddu'n dda. Gorchuddion y waliau a theils mewn cyflwr ardderchog, gorffeniad proffesiynol i bob agwedd ar yr addurniadau. Defnydd deniadol o luniau, printiau ac addurniadau eraill.

GOLAU/GWRES

Isafswm y Gofynion Mynediad

Golau: Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, amrywiaeth, math, darpariaeth a lleoliad y prif oleuadau a'r goleuadau eilaidd, darpariaeth a lleoliad yr unedau ynni, switsys golau etc.

- **Rhaid darparu golau trydan.**

Gwres: Mae'r adran hon yn gysylltiedig â'r amrywiaeth, y math a phriodoldeb unrhyw fath o wres – ffynhonnell wres ar y llawr, paneli ar y waliau neu nenfydau neu wres canolog.

- Rhaid darparu ffynonellau digonol o wres bob amser, gan ystyried amrywiadau tymhorol a daearyddol.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Lefelau digonol o oleuadau, wedi'u lleoli'n briodol.		Goleuadau wedi'u lleoli'n dda, yn rhoi lefel dda o olau ac yn creu awyrgylch. Dull hawdd o reoli'r goleuadau. Y grisiau, yr ardaloedd glanio ar ben y grisiau a'r coridorau wedi eu goleuo'n arbennig o dda. Digonedd o olau naturiol.		Goleuadau o ansawdd da, wedi'u lleoli'n dda, yn rhoi digon o olau ar gyfer dibenion amrywiol, ee darllen, bwyta. Yn cynnwys goleuadau ar y nenfwd a goleuadau ychwanegol, sy'n hawdd eu haddasu. Gallai gynnwys goleuadau sy'n goleuo'r bwrdd bwyta yn uniongyrchol, lle bo hynny'n briodol.

GOLAU/GWRES (parhad)

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Lefelau digonol o wres ar gyfer pob ardal.		Lefelau effeithiol o wres yn darparu tymheredd cyson ledled y llety, gyda rheolyddion thermostatig.		Lefelau ardderchog o wres yn cael eu darparu, gan roi hyblygrwydd a moethusrwydd. Gwydro dwbl i gadw gwres.

GOSODIADAU, LLENNI A DEUNYDDIAU A GOSODIADAU

Isafswm y Gofynion Mynediad

Ystafell fyw/fwyta: Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, ymddangosiad, cyflwr, trefniant, maint etc yr holl ffitiadau, ee gwresogyddion, y teledu etc, a'r holl ddodrefn, ee cadeiriau esmwyth a deunyddiau, byrddau bwyta a chadeiriau, cypyrddau, silffoedd, clustogau, llenni, bleindiau. Mae gosodiadau golau a'r ffenestri hefyd yn cael eu hystyried.

- Rhaid gosod llenni didraidd neu fleindiau ar bob ffenestr.
- Rhaid darparu cyfleusterau bwyta digon o faint ar gyfer y nifer mwyaf posibl o ymwelwyr.
- Rhaid darparu cadeiriau esmwyth/soffa yn y lolfa a/neu far sy'n ddigon o faint ar gyfer y nifer mwyaf posibl o ymwelwyr.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Darpariaeth gyfyngedig o ran ansawdd a nifer y dodrefn, llenni a deunyddiau a ffitiadau.		Dodrefn o ansawdd da. Mwy o amrywiaeth o soffas a/neu gadeiriau breichiau gyda sylfaen â sbrings.		Dodrefn o ansawdd uchel. Moethus iawn. Cyfleusterau bwyta a bar helaeth ar gyfer y nifer mwyaf posibl o bobl.
	Cydweddu cyfyngedig. Llenni o hyd a lled digonol i orchuddio'r ffenestri.		Cydweddu da. Llenni sylweddol wedi'u leinio ar bob ffenestr.		Y dodrefn a'r deunyddiau yn cydweddu'n ardderchog.
			Goleuadau o ansawdd da, gyda chysgodlenni priodol.		Goleuadau o'r ansawdd uchaf posibl.

LLORIAU

Isafswm y Gofynion Mynediad Mae'r adran hon yn gysylltiedig ag ansawdd, math a chyflwr y carpedi, y rygiau, y lloriau finyl, y lloriau pren etc. Ystyriwch ba mor addas yw gorchudd y llawr, gan ystyried hygyrchedd.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Lloriau wedi'u gosod yn gywir. Yn ymarferol gydag arwyneb gwrthlithro.		Lloriau sydd wedi'u gosod yn dda, o ansawdd da, ac mewn cyflwr da, yn gyfforddus dan draed.		Lloriau o ansawdd uchel, wedi eu gosod gan bobl broffesiynol, mewn cyflwr ardderchog.

GLANWEITHDRA

Isafswm y Gofynion Mynediad

- Rhaid glanhau dodrefn ac offer yn drylwyr rhwng pob arhosiad.

Sgôr Ansawdd	1	2	3	4	5
Dangosyddion Ansawdd	Pob arwyneb ac offer yn lân ac yn ddi-lwch. Pob carped wedi cael ei hwfro a'r lloriau wedi eu glanhau. Tystiolaeth o sylw i fanylion, yn arbennig ar lefel uchel ac isel.		Arwynebau glân a ffres, dim marciau. Pob ardal yn arogli'n ffres ac yn lân ar gyfer croesawu'r ymwelwyr. Lefel uchel iawn o lanweithdra.		Arwynebau sy'n disgleirio, dim crafiadau. Tystiolaeth o lanhau trylwyr a llawer o sylw i fanylion.

COD YMARFER

Mae rheidrwydd ar y perchennog/y rheolwr i gynnal a dilyn y Cod Ymarfer canlynol

- Cynnal safonau o ran gofal i ymwelwyr, glanweithdra a gwasanaeth, fel sy'n briodol i'r math o sefydliad;
- Disgrifio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir yn fanwl gywir ym mhob hysbyseb, llawlyfr neu gyfrwng argraffedig neu electronig arall;
- Egluro i ymwelwyr beth yn union sy'n gynwysedig ym mhob pris a roddir ar gyfer llety, gan gynnwys trethi, ac unrhyw ordal arall. Dylid egluro hefyd fanylion taliadau am wasanaethau/cyfleusterau eraill;
- Rhoi datganiad clir ar y polisi canslo i ymwelwyr wrth iddynt gadw lle, hy dros y ffôn, y ffacs, e-bost, yn ogystal â darparu gwybodaeth wedi'i hargraffu;
- Glynu at brisiau a osodwyd wrth i ymwelwyr gadw lle ar gyfer llety a chyfleusterau eraill, a pheidio â chodi rhagor na hynny;
- Rhoi gwybod i ymwelwyr wrth iddynt gadw lle, ac wedi hynny pan fydd unrhyw newid, os yw'r llety a gynigir mewn anecs annibynnol neu drefniant cyffelyb, a nodi lleoliad unrhyw lety o'r fath ac unrhyw wahaniaethau rhwng y moethusrwydd a/neu gyfleusterau a gynigir gan y llety hwnnw a'r llety yn y sefydliad;
- Rhoi i bob ymwelydd, ar gais, fanylion y taliadau dyledus a derbynneb, os dymunir;
- Mynd i'r afael mewn modd prydlon a chwrtais â phob ymholiad, cais, cais i gadw lle a gohebiaeth a dderbynnir oddi wrth ymwelwyr;
- Sicrhau bod gweithdrefnau ar gael i fynd i'r afael â chwynion, a bod cwynion yn cael eu trin mewn modd prydlon a chwrtais, a'r ymwelydd yn cael gwybod am y canlyniad;
- Ystyried yn briodol anghenion ymwelwyr anabl ac ymwelwyr ag anghenion arbennig, a chynnig darpariaethau addas lle bo angen;
- Darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu drefniadau cyffelyb, a chydymffurfio â gofynion cynllunio, diogelwch a statudol perthnasol;
- Caniatáu mynediad rhesymol i'r sefydliad ar gais i gynrychiolydd Croeso Cymru, er mwyn cadarnhau bod y Cod Ymddygiad yn cael ei ddilyn.

AMODAU CYMRYD RHAN

Mae rheidrwydd ar bob sefydliad sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau graddio Croeso Cymru i:

- Fodloni neu ragori ar isafswm y gofynion mynediad ar gyfer gradd Croeso Cymru yn y sector llety perthnasol;
- Dilyn Cod Ymddygiad Croeso Cymru;
- Cael eu hasesu yn flynyddol, ac os bydd cwynion yn cael eu gwneud gan gynrychiolydd awdurdodedig Croeso Cymru;
- Talu ffi arolygu flynyddol;
- Darparu Datganiad Hygyrchedd i Bobl Anabl.

Newid Perchnogion

Pan fydd sefydliad yn cael ei werthu, ni ellir trosglwyddo'r radd gyfredol i'r perchennog newydd. Rhaid i'r perchennog newydd wneud cais i gael cymryd rhan yng nghynllun Gradd Sêr Croeso Cymru.

Arwyddion

Pan fydd sefydliad, am ba reswm bynnag, yn peidio â chymryd rhan yng nghynllun gradd sêr Croeso Cymru, rhaid tynnu'r arwyddion arddangos a'r deunyddiau sydd wedi'u hargraffu perthnasol yn syth.

Dylid defnyddio logo perthnasol Croeso Cymru wrth ddangos pob gradd Sêr.

Mae cael eich rhestru yn un o gyhoeddiadau/ar wefan Croeso Cymru, ac fel rhan o rwydwaith y Canolfannau Croeso, yn amodol ar barhau i gymryd rhan yng nghynllun arolygu Croeso Cymru.

Gallai methu â dilyn yr amodau hynny arwain at wahardd y sefydliad rhag dangos neu ddefnyddio ardystiad Croeso Cymru mewn unrhyw ffurf.

BETH I'W WNEUD OS NAD YDYCH YN CYTUNO Â'R RADD SÊR A RODDWYD

Os ydych yn teimlo bod gennych le i anghytuno ar y radd Sêr a roddwyd i'ch eiddo, neu os ydych yn anghytuno â rhai agweddau ar adroddiad yr Asesydd Ansawdd, byddwch cystal â chysylltu â ni cyn pen 21 o ddiwrnodau wedi ichi gael yr adroddiad ysgrifenedig. Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0300 062 2000 neu anfon neges e-bost atom yn quality.tourism@wales.gsi.gov.uk a byddwn yn ceisio ateb eich pryderon.
Fel arall, efallai y byddwch am ysgrifennu atom yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR

www.cymru.gov.uk/twristiaeth

MANYLION CYSWLLT

Os hoffech wneud cais am ymweliad ar gyfer gradd Seren neu drafod unrhyw fater perthnasol sy'n codi o gynnwys y canllaw hwn, cysylltwch â ni yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR
Ffôn: 0300 062 2000
E-bost: quality.tourism@wales.gsi.gov.uk

Gallwch hefyd gael ffurflen gais am raddio, manylion ffioedd a fersiwn electronig o'r canllaw hwn drwy fynd i'n gwefan www.cymru.gov.uk/twristiaeth a chlicio ar 'Graddio'.

Visit Wales
Croeso Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government